



# DYSGU DRWY CHWARAE

## Chwarae gyda dŵr - Arnofio a suddo

Mae'r rhan fwyaf o blant wrth eu bodd yn chwarae mewn/gyda dŵr.

### Byddwch angen:

- Bowlen/cynhwysydd mawr
- Dŵr
- Gwrthrychau naturiol fel dail i arnofio a cherrig mân i suddo
- Neu defnyddiwch y pethau o amgylch y tŷ

### Dull:

- Llenwch y bowlen/cynhwysydd at hanner ffordd gyda dŵr

# DYSGU DRWY CHWARAE - Chwarae gyda dŵr - Arnofio a suddo

- Rhowch yr eitemau ar y dŵr yn ofalus - ydyn nhw'n suddo neu'n arnofio?
- Gadewch i'ch plentyn chwarae gyda'r eitemau naturiol i mewn ac allan o'r dŵr i deimlo'r gwahanol weadau

## Manteision y gweithgaredd hwn:

- Bydd estyn i mewn i'r dŵr i nôl eitemau yn datblygu sgiliau echddygol eich plentyn
- Bydd eich plentyn yn dysgu geiriau newydd wrth i chi siarad am y gwrthrych, pa mor drwm ydyw, pa un a yw'n arnofio neu'n suddo



### **RHYBUDD:**

Mae angen goruchwyliaeth fanwl gyda darnau bach ac unrhyw weithgareddau dŵr!

